

Arweiniad atodol:

arolygu diogelu mewn
darpariaeth ôl-16

Hydref 2017

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ▲ ysgolion cynradd
- ▲ ysgolion uwchradd
- ▲ ysgolion pob oed
- ▲ ysgolion arbennig
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion
- ▲ ysgolion annibynnol
- ▲ addysg bellach
- ▲ colegau arbenigol annibynnol
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned
- ▲ gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon
- ▲ Cymraeg i oedolion
- ▲ dysgu yn y gwaith
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

<http://www.estyn.llyw.cymru>

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.

Beth yw'r diben?

Mae hyn yn rhoi mwy o arweiniad i arolygwyr ei ddefnyddio er gwybodaeth yn ystod arolygiad, ochr yn ochr ag arweiniad y sector ar gyfer arolygu'r ddarpariaeth yn y sector ôl-16, i gefnogi trywyddau ymholi penodol.

Ar gyfer pwy mae wedi'i fwriadu?

Ar gyfer pob arolygydd

Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad? Hydref 2017

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2017

Cynnwys

Arweiniad atodol	1
Cyflwyniad	2
Diffiniad o ddiogelu	3
Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn	4
Agweddau ar ddiogelu o fewn y fframwaith	4
Addysg neu hyfforddiant gyda darpariaeth llely neu breswyl	6
Arweiniad i arolygwyr wrth lunio barnau am effeithiolrwydd gweithdrefnau diogelu	6
Tystiolaeth cyn-arolygiad	6
Cynllunio'r arolygiad	7
Gweithgarwch arolygu	8
Barnu diogelu mewn darpariaeth ôl-16	8
Oedolion sydd mewn perygl	9
Atodiad 1: Gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), ailwiriadau a hygludedd	10
Atodiad 2: Gweithgarwch rheoleiddiedig fel y mae wedi'i ddiffinio gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012	14
Atodiad 3: Delio â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill (Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 009/2014)	15
Atodiad 4: Gweithdrefnau ar gyfer adrodd ar achosion o gamymddwyn ac anghymwystra yn y gweithlu addysg yng Nghymru. Cylchlythyr 168/2015 Llywodraeth Cymru	16
Atodiad 5: Diogelwch ar-lein	17
Atodiad 6: Atal radicaleiddio ac eithafiaeth	18
Atodiad 7: Diogeledd ar y safle	19
Atodiad 8: Gwybodaeth am ddiogelu ac arolygiadau	20
Atodiad 9: Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd	21

Arweiniad atodol

Y dogfennau allweddol Estyn sy'n rhoi arweiniad ar weithgarwch arolygu yw'r llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector. Fodd bynnag, rydym yn llunio arweiniad atodol hefyd i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu rhai egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector y mae Estyn yn ei arolygu, oni bai bod y dogfennau'n datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ymhelaethu ar agweddau penodol ar addysg/hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn drwyadl wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth iddynt ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai'r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i gael dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn hefyd. Gallent fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd o ran arfarnu agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn mynd ati i arolygu'n gadarnhaol, i sicrhau mai'r profiad dysgu proffesiynol gorau posibl fydd hwn ar gyfer y staff ym mhob darparwr
- Bydd arolygwyr yn arolygu ar sail dull sy'n cael ei arwain gan y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol, graff
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau'r arolygiad yn unol â'r amgylchiadau ym mhob darparwr, cyhyd â phosibl
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymateb i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac yn defnyddio ystod gynyddol yr adnoddau a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond byddant yn adrodd ar y cryfderau a'r gwendidau allweddol yn unig ym mhob darparwr

Cyflwyniad

Nod yr arweiniad atodol hwn yw cynorthwyo arolygwyr, yn ôl y gofyn, i arfarnu trefniadau diogelu wrth gynnal arolygiadau o ddarpariaeth ôl-16. Dylid ei ddefnyddio er gwybodaeth yn ystod arolygiad ochr yn ochr â Pholisi a Gweithdrefnau Estyn ar gyfer Diogelu, sydd i'w gweld ar wefan Estyn: <http://www.estyn.llyw.cymru/cwestiynau>.

<https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Estyn%20Safeguarding%20Policy%202016%20Cy.pdf>

Nid yw'r arweiniad hwn yn mynd i'r afael â'r modd y dylai arolygwyr ddelio â honiadau ynghylch diogelu a geir yn ystod arolygiadau. Rhaid i arolygwyr fod yn gyfarwydd â Pholisi a Gweithdrefnau Estyn ar gyfer Diogelu, sy'n cynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed. Dylai pob arolygydd wybod beth i'w wneud os byddant yn derbyn honiadau mewn perthynas â diogelu, ac mae'r camau gofynnol wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon. Gallwch weld copi o'r ddogfen ar wefan Estyn:

<http://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Estyn%20Safeguarding%20Policy%202015%20Cy.pdf>.

Rhagor o gyngor ac arweiniad

Dylai arolygwyr sydd angen cyngor neu arweiniad edrych i ddechrau ar y cofnod ymholiadau 'parhaus' a gynhelir ar Sharepoint, a'r adran Cwestiynau Cyffredin ar wefan Estyn. Y rheswm am hyn yw y gellid bod wedi mynd i'r afael â'u hymholiad eisoes mewn lleoliad arall. Gallwch weld y cofnod ymholiadau yma:

<http://estynintranet/policy/Safeguarding/Safeguarding%20Documents/Inspection%20related%20Safeguarding%20queries.xls>.

Gellir gweld atebion i gwestiynau cyffredin am arfarnu trefniadau darparwr ar gyfer diogelu yn:

<http://estynintranet/policy/Safeguarding/Safeguarding%20Documents/Forms/FAQs%20and%20Queries.aspx>

Pan fydd arweiniad presennol yn aneglur neu nid yw ar gael, dylai arolygwyr gysylltu â'r Arweinydd Sector neu'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol perthnasol ynghlŷn ag ymholiadau ynghylch arfarnu trefniadau diogelu darparwr.

Mewn achos o bryderon neu ymholiadau'n gysylltiedig â derbyn honiadau ynghylch diogelu, mae'r rhifau ffôn canlynol ar gael:

Swyddog Arweiniol Estyn ar gyfer diogelu: 02920 446482 (ar gael y tu allan i oriau swyddfa hefyd)

Dirprwy Swyddog Estyn ar gyfer diogelu: 02920 446484 (ar gael y tu allan i oriau swyddfa hefyd)

Prif swyddfa Estyn (yn ystod oriau swyddfa): 02920 446446

Diffiniad o ddiogelu

Mae gan bob darparwr ddyletswydd statudol i arfer eu swyddogaethau gyda bwriad i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae angen i'r trefniadau sydd gan ddarparwyr ar waith sicrhau bod darparwyr:

- yn cymryd camau rhesymol i leihau risgiau niwed i les plant ac oedolion agored i niwed
- yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phryderon am les plentyn neu oedolyn agored i niwed, gan weithio yn ôl polisiâu a gweithdrefnau lleol cytûn mewn partneriaeth lawn ag asiantaethau lleol eraill

Mae diogelu a hyrwyddo lles plant yn ymwneud â'r canlynol:

- amddiffyn dysgwyr rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso
- atal nam ar eu hiechyd neu'u datblygiad
- sicrhau eu bod yn cael gofal diogel ac effeithiol

Trwy wneud hyn, mae'n galluogi dysgwyr i gael y cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd.

Mae pawb sy'n gweithio mewn addysg yn rhannu amcan i helpu i gadw dysgwyr yn ddiogel. Wrth arolygu trefniadau diogelu darparwr, rhaid i arolygwyr ganolbwyntio ar ba mor effeithiol yw'r darparwyr mewn tri gweithgaredd hanfodol:

- creu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i ddysgwyr
- nodi lle mae pryderon ynghylch lles plentyn neu oedolyn agored i niwed, a chymryd camau i fynd i'r afael â'r rhain, lle y bo'n briodol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill
- datblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwydnwch plant ac oedolion agored i niwed trwy'r cwricwlwm

I gyflawni'r amcan hwn, mae angen systemau a gynlluniwyd i:

- atal pobl anaddas rhag gweithio gyda dysgwyr
- hyrwyddo arfer ddiogel a herio arfer wael ac anniogel yn y lle dysgu a'r cyflogwr, lle bo'n briodol
- nodi achosion lle mae sail i bryder ynghylch lles dysgwr sy'n deillio o'i le cyflogaeth, yn y cartref, y gymuned neu'r man dysgu, a chychwyn neu gymryd camau priodol i'w gadw'n ddiogel
- cyfrannu at weithio mewn partneriaeth yn effeithiol rhwng pawb sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau i ddysgwyr

Mae amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg yn rhan o ddiogelu a hyrwyddo lles. Mae hyn yn cyfeirio at y gweithgarwch yr ymgymerir ag ef i amddiffyn dysgwyr penodol sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol yn sgil cam-drin neu esgeulustod.

Mae diogelu yn cwmpasu mwy na'r cyfraniad a wneir at amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg mewn perthynas â dysgwyr unigol. Mae hefyd yn cynnwys materion fel:

- recriwtio, goruchwyllo, hyfforddi a rheoli staff yn ddiogel
- sut mae staff yn rheoli ymddygiad dysgwyr
- pa mor dda mae'r darparwr yn monitro presenoldeb dysgwyr neu eu hymgysylltiad â'r ddarpariaeth ac yn gallu adnabod yn gyflym gyflyrau meddygol diesboniad, absenoldebau anarferol a diflaniadau
- iechyd a diogelwch dysgwyr, a'u lles, ar y safle ac oddi ar y safle
- bwlio, gan gynnwys seiberfwlio
- trefniadau ar gyfer bodloni anghenion dysgwyr â chyflyrau meddygol
- addysg ryw
- hyrwyddo perthnasoedd iach
- priodas dan orfod
- atal radicaleiddio ac eithafiaeth
- masnachu pobl
- cyfeirio dioddefwyr camdriniaeth at gymorth a chefnogaeth briodol
- dyletswydd adrodd gorfodol ar gyfer anffurfio organau cenhedlu benywod
- camddefnyddio cyffuriau a sylweddau
- diogelwch ar-lein

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno gofynion statudol penodol ynghylch llawer o'r materion hyn. Mae'n bosibl hefyd fod materion diogelu eraill yn bodoli sy'n benodol i'r ardal neu'r boblogaeth leol.

Os oes gofynion statudol, dylai darparwr fod wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith eisoes sy'n bodloni'r rhain ac yn cydymffurfio ag unrhyw arweiniad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn yr un modd, dylai polisïau a gweithdrefnau sy'n cyd-fynd â'r arweiniad hwnnw neu'n cyflawni'r un effaith ddangos tystiolaeth o drefniadau ynghylch materion y mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi arweiniad arnynt.

Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn

Mae hyn yn cyfeirio at fframwaith arolygu cyffredin Estyn o Fedi 2017 ar gyfer arolygiadau dysgu yn y gwaith. Ar gyfer arolygiadau colegau addysg bellach, o 2017-2018, yr agweddau ar ddiogelu yw Lles (1.2), nid Maes Arolygu 2, a Gofal, cymorth ac arweiniad (2.3), nid Maes Arolygu 4. Ymdrinnir ag agweddau ar arweinyddiaeth yn 3.1 a 3.2, nid Maes Arolygu 5.

Agweddau ar ddiogelu o fewn y fframwaith

Mae **Maes Arolygu 2** yn ymwneud â'r graddau y mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a saff, ac yn rhydd rhag camdriniaeth gorfforol a geiriol. Yma, bydd arolygwyr yn arfarnu ac yn adrodd ar effaith darpariaeth y darparwr ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles y dysgwyr.

Bydd y rhan fwyaf o'r sylwadau am ddarpariaeth y darparwr ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles ym **Maes Arolygu 4**, sy'n ymwneud â threfniadau'r darparwr ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad dysgwyr.

Yn adran 4.2 **Datblygiad Personol**, bydd arolygwyr yn arfarnu pa mor dda y mae'r ddarpariaeth yn helpu dysgwyr i ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth o ran gwneud dewisiadau iach am ffordd o fyw, er enghraifft mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau, rhyw a pherthnasoedd a diogelwch ar-lein.

Mae'r agweddau ar ddiogelu a hyrwyddo lles dysgwyr a welir yn 4.2 yn cynnwys trefniadau'r darparwr ar gyfer addysgu dysgwyr am y canlynol:

- bwlio, gan gynnwys bwlio seiber
- diogelwch ar y rhyngwyd
- aflonyddwch a gwahaniaethu
- camddefnyddio cyffuriau a sylweddau
- addysg rhyw a pherthnasoedd iach
- atal radicaleiddio ac eithafiaeth

Mae adran 4.3 **trefniadau diogelu** yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd polisiau a gweithdrefnau'r darparwr ar gyfer diogelu, gan gynnwys:

- cofnodi a rheoli achosion o fwlio
- amddiffyn plant / oedolion
- recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel
- cymorth cyntaf
- lles dysgwyr sydd â chyflyrau meddygol
- lles dysgwyr ar leoliadau galwedigaethol
- diogelwch ar ymweliadau addysgol
- diogeledd ar y safle
- rheoli disgyblu dysgwyr, gan gynnwys ymyrraeth ac ataliad corfforol
- rheoli cludiant, gan gynnwys traffig, ar safle'r darparwr

Dylai arolygwyr asesu'n ofalus nid yn unig a yw'r dogfennau hyn yn bodoli, ond eu hansawdd, ac yn hanfodol, pa mor dda y cânt eu cymhwyso. Dylai'r polisiau hyn ymdrin â gwasanaethau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod gwaith (e.e. lle cânt eu darparu, gweithgareddau cymunedol ar safle'r darparwr, ac ati).

Mae **Maes Arolygu 5** ynglŷn ag arweinyddiaeth a rheolaeth.

Dylai arweinwyr a rheolwyr darparwr fod yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau statudol o ran diogelu a'r camau y maent yn eu cymryd i ddatblygu arfer dda y tu hwnt i'r isafswm statudol.

Dylai arweinwyr a rheolwyr fod yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau statudol ynghylch diogelu a'r camau y maent yn eu cymryd i ddatblygu arfer dda y tu hwnt i'r isafswm statudol. Mae corff llywodraethol sefydliad addysg uwch, neu berchennog Coleg Arbenigol Annibynnol, yn atebol am sicrhau bod y darparwr wedi rhoi polisiau a gweithdrefnau effeithiol ar waith yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru, a dylai

fonitro cydymffurfiad y darparwr â hyn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwiriadau recriwtio diogel yn cael eu cynnal yn unol â gofynion statudol.

Dylai arolygwyr asesu'n ofalus pa mor dda y mae uwch reolwyr a llywodraethwyr yn monitro ac arfarnu pob agwedd ar ddiogelu. Os nad oes gan y darparwr bolisiâu a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles dysgwyr, ac nid yw'n cymryd camau digonol i sicrhau y glynir at y rhain, bydd hyn yn dylanwadu ar y barnau sy'n cael eu llunio am ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn y darparwr.

Addysg gyda llety neu ddarpariaeth breswyl

Os oes gan yr addysg ddarpariaeth llety neu mae wedi'i chysylltu â lleoliad preswyl, rhaid i arolygwyr Estyn gydweithio ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyfrannu at anghenion lletywyr neu breswylwyr mewn perthynas â'u diogelwch.

Arweiniad ar gyfer arolygwyr wrth lunio barnau am effeithiolrwydd gweithdrefnau diogelu

Tystiolaeth cyn-arolygiad

Bydd arolygwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth. Cyn yr arolygiad, mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles, bydd yr Arolygydd Cofnodol yn ystyried:

- adroddiad hunanarfarnu'r darparwr, yn enwedig yr adrannau ar feysydd arolygu 2.1, 4.2 a 4.3
- ffurflen hunanarfarnu'r darparwr ar gyfer diogelu
- yr adroddiad arolygu blaenorol
- data ar agweddau ar ymddygiad fel gwaharddiadau; achosion difrifol a defnyddio ymyriadau corfforol
- polisiâu'r darparwr ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles
- ymatebion i'r holiaduron i ddysgwyr, yn arbennig yr ymatebion i gwestiynau ynglŷn â theimlo'n ddiogel, bwlio, gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni, cadw'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd
- ymatebion i'r holiaduron i rieni, yn enwedig y cwestiynau ynghylch anogaeth i fod yn iach a gwneud ymarfer corff, bod yn ddiogel a chael y cymorth ychwanegol ar gyfer unrhyw anghenion penodol
- gwybodaeth ysgrifenedig gan rieni neu bartneriaid eraill
- unrhyw gŵynion y gallai Estyn fod wedi'u derbyn

Dylai arolygwyr roi ystyriaeth benodol i gyd-destun y darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- ffederasiynau darparwyr a threfniadau cydweithredol eraill
- nifer y safleoedd a ddefnyddir gan ddysgwyr
- darpariaeth oddi ar y safle
- darpariaeth dysgu yn y gwaith
- darpariaeth gwasanaethau estynedig

- darpariaeth 14-16 neu ddarpariaeth ôl-16 ar y cyd
- nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru sy'n oedolion sy'n wynebu risg, er enghraifft mewn darpariaeth medrau byw'n annibynnol
- nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant
- nifer y ffoaduriaid neu geiswyr lloches
- nifer y plant sy'n derbyn gofal
- gwaharddiadau a throsglwyddo dysgwyr

Os bydd tystiolaeth cyn-arolygiad yn amlygu problemau diogelu posibl neu arfer reoli wael gan y darparwr, dylai arolygwyr ofyn i Gyfarwyddwr Cynorthwyol eu sector a'r swyddog diogelu am arweiniad. Os ystyrir bod angen adrodd am broblem, rhaid cymhwyso polisi diogelu Estyn.

Cynllunio'r arolygiad

Gellir neilltuo cyfrifoldeb am arolygu diogelu i unrhyw aelod o'r tîm, gan gynnwys arolygydd cymheiriaid. Gallai gwahanol arolygwyr fod yn gyfrifol am wahanol agweddau ar ddiogelu a hyrwyddo lles gan eu bod yn digwydd mewn mwy nag un dangosydd ansawdd, er enghraifft yn 2.1, 4.2 a 4.3 ac mewn agweddau ar arweinyddiaeth a rheolaeth ym Maes Arolygu 5 yn ogystal. Fel ym mhob arolygiad, mae'r arolygydd cofnodol yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am gynnal yr arolygiad ac mae angen iddo/iddi fonitro gwaith yr arolygydd/arolygwyr sy'n arwain ar faterion yn ymwneud â diogelu a hyrwyddo lles dysgwyr, yn enwedig materion yn ymwneud ag amddiffyn plant neu oedolion sy'n wynebu risg.

Bydd pob darparwr yn llenwi ffurflen hunanarfarnu mewn perthynas â diogelu cyn yr arolygiad. Mae'r ffurflen hon yn darparu trosolwg defnyddiol o'r materion y mae angen eu hystyried wrth arfarnu polisi a gweithdrefnau'r darparwr ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae darparwyr yn rhydd i ddefnyddio unrhyw fodel hunanarfarnu diogelu addas y maent yn dymuno. Gellir gweld templed hunanarfarnu defnyddiol ar wefan Estyn.

Dylai arolygwyr nodi y dylai darparwr sy'n cyflwyno darpariaeth wedi'i hanelu at ddysgwyr o dan 18 oed gydymffurfio'n fras â'r gofynion hynny ynghylch diogelu sy'n berthnasol i ddarparwr.

Yn ogystal, bydd angen i arolygwyr siarad â dysgwyr sydd ar leoliadau gwaith. Dylent ddefnyddio'r trafodaethau hyn i gyfrannu at arfarniad o ba mor dda y mae darparwyr yn sicrhau bod dysgwyr mewn lleoliadau gwaith yn ddiogel a pha mor dda y maent yn deall beth y gallant ei wneud os ydynt yn teimlo'u bod yn cael eu bwlio neu eu bod yn anniogel mewn unrhyw ffordd arall.

Os bydd dysgwyr dros 18 oed, dylent ddeall o hyd beth y gallant ei wneud os ydynt yn teimlo'u bod yn dioddef problemau fel:

- amodau gwaith anniogel
- aflonyddu
- ymdrechion i'w radicaleiddio neu i hyrwyddo eithafiaeth
- difrïo hiliol

Yn ogystal, gallai arolygwyr drefnu cyfarfod â rheolwyr dynodedig y darparwr sydd â chyfrifoldeb am ddiogelu.

Mae'n bwysig hefyd fod arolygwyr yn sefydlu a yw'r holl staff yn gwybod am bolisiau a gweithdrefnau'r darparwr, er enghraifft trwy ofyn i staff asesu am weithdrefnau diogelu'r darparwr.

Gweithgarwch arolygu

Wrth arolygu darparwyr mewn perthynas â diogelu, bydd arolygwyr yn arfarnu'r canlynol:

- p'un a yw'r darparwr wedi llunio hunanarfarniad cyfoes sy'n arfarnu ei ddyletswyddau diogelu, gan gynnwys gweithgarwch diogelwch ar-lein, a pha mor dda y mae'n amlinellu cryfderau a meysydd i'w gwella
- pa mor dda y mae'r darparwr yn gweithredu a monitro ei bolisiau a'i weithdrefnau er mwyn gwella'r modd y mae'n diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion sydd mewn perygl yn unol ag arweiniad statudol Llywodraeth Cymru a welir yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel
- p'un a yw'r darparwr yn adrodd yn rheolaidd i uwch reolwyr a llywodraethwyr, a pha mor dda y mae'n defnyddio'i ddata a'i arfarniadau o ddiogelu am achosion yn y darparwr, gan gynnwys achosion, ac agweddau ar, ddiogelwch ar-lein
- p'un a yw pob un o'r staff yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i amddiffyn dysgwyr a bod yr holl staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu, gan gynnwys dyletswyddau 'Atal'
- p'un a yw'r holl gofnodion sy'n gysylltiedig â diogelu yn gyfoes, gan gynnwys achosion o ymyrraeth gorfforol, cyfeiriadau amddiffyn plant / oedolion, recriwtio diogel a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a hyfforddiant ar ddiogelu
- bod dulliau cyson o reoli ac adrodd am achosion yn ymwneud â diogelu a materion rheoli ymddygiad yn y darparwr, sy'n cael eu cefnogi gan bolisiau a gweithdrefnau clir, ac sy'n cynnwys rheoli achosion yn gysylltiedig â'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol
- trefniadau digonol ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o sut i fod yn ddiogel ar-lein, ac sy'n cael eu cynnwys yn rheolaidd yng nghwricwlwm y darparwr.

Barnu diogelu mewn darpariaeth ôl-16

Mae angen i arolygwyr ystyried ystod y gweithgareddau sydd ar waith gan y darparwr i sicrhau diogelwch ei ddysgwyr. **Rhaid** i'r darparwr gydymffurfio â gofynion cyfreithiol fel man cychwyn a **dylai** ddilyn unrhyw arweiniad gan Lywodraeth Cymru. Y cwestiwn sylfaenol yw hwn: a yw arolygwyr yn fodlon bod dysgwyr yn ddiogel yn y ddarpariaeth. Mae diogelu yn debygol o fod yn achos pryder difrifol os oes problemau fel a ganlyn:

- nid yw staff yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i amddiffyn dysgwyr
- mae cofnodion anghyflawn neu mae gwiriadau'r GDG a gwiriadau'r rhestr waharddedig ar goll, y byddai eu presenoldeb yn briodol i ystod darpariaeth y darparwr

- mae trefniadau annigonol ar gyfer goruchwyllo ymwelwyr neu wirfoddolwyr nad ydynt wedi cael gwiriadau gan y GDG a gwiriadau'r rhestr waharddedig
- mae trefniadau annigonol ar gyfer cadw dysgwyr yn ddiogel ar-lein
- mae trefniadau annigonol ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau yn gysylltiedig ag Atal er mwyn cadw dysgwyr yn ddiogel rhag cael eu radicaleiddio neu hyrwyddo eithafiaeth iddynt
- mae trefniadau annigonol ar gyfer monitro neu weithredu ynghylch offer neu amgylchedd sy'n annigol neu sy'n peri risg amhriodol i les dysgwyr
- nid yw'r darparwr yn ymdrin â bwlio yn effeithiol

Pan na fydd trefniadau diogelu yn gyflawn, yn effeithiol, yn cydymffurfio â gofynion statudol a/neu pan nad yw dysgwyr yn ddiogel, mae'n bwysig bod y materion hyn yn cael eu cofnodi'n gywir ar ôl eu darganfod, a'u bod yn cael eu tynnu i sylw'r darparwr. Rhaid i chi eu trafod yng nghyfarfod safoni'r tîm, ynghyd â chynnwys sylw yn yr adroddiad ac argymhelliad i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Yn yr achosion hyn, dylai'r ACof ysgrifennu llythyr ynghylch diogelu / iechyd a diogelwch. Bydd y Cydlynnydd Arolygu'n arwain yr ACof drwy'r broses ac yn rheoli'r gwaith o ddrafftio'r llythyr gyda'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol priodol.

Pan fydd materion yn rhai **mân** a **hawdd eu datrys**, ac na chânt eu hystyried yn arwyddocaol, nid oes angen sylw a/neu argymhelliad yn yr adroddiad arolygu terfynol. Fodd bynnag, dylid cofnodi hyn yn FfF yr arolygiad ac adrodd y mater yn ôl i Bennaeth neu brif weithredwr cwmni dysgu yn y gwaith cyn gynted â phosibl.

Oedolion sy'n wynebu risg

Derbyniodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Bydd trefniadau o dan y Ddeddf yn cael eu gweithredu o Ebrill 2016.

Mae Adran 126 y Ddeddf hon yn diffinio 'oedolyn sy'n wynebu risg' fel unigolyn dros 18 oed:

- sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso
- y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio)
- nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso

Felly, gallai dysgwyr sy'n cael eu lleoli mewn colegau arbenigol a rhai dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach eraill gael eu hystyried yn oedolion sy'n wynebu risg, yn dibynnu ar lefel eu hanghenion dysgu ychwanegol. Yn yr achos hynny, dylid eu cefnogi trwy ddefnyddio cynlluniau gofal personol a dylent allu cael at eiriolaeth a chyingor annibynnol.

Disgwylir y bydd y byrddau diogelu oedolion a sefydlir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn gweithio gyda'r fforymau presennol yng Nghymru ar gyfer amddiffyn oedolion, er mwyn adolygu a diweddarau'r polisi a'r weithdrefn ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg.

Atodiad 1: Gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), ailwiriadau a hygludedd

Daeth Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 i rym ar 10 Medi 2012.

Rhodddwyd y newidiadau canlynol ar waith ym Medi 2012:

- diffiniad newydd o “weithgarwch rheoleiddiedig” i ganolbwyntio ar waith sy’n cynnwys cyswllt agos a heb oruchwyliaeth gyda grwpiau hyglwyf
- bydd gweithgareddau a gwaith a dynnwyd o’r diffiniad o “weithgarwch rheoleiddiedig” yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer gwiriadau manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- gweithredu isafswm oedran (16) o ran yr oedran y gall rhywun wneud cais am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- prawf ‘perthnasedd’ mwy trylwyr ar gyfer yr adeg pan fydd yr heddlu’n rhyddhau gwybodaeth a gedwir yn lleol am wiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Ar 1 Rhagfyr 2012, unwyd y Swyddfa Cofnodion Troseddol a’r Awdurdod Diogelu Annibynnol i ffurfio’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Mae’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfrifol am weinyddu tri math o wiriad:

- **Safonol** – gwiriad ar gofnodion Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) o euogfarnau, rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion
- **Manwl** – gwiriad ar y PNC yn unol â’r uchod, ynghyd â gwybodaeth arall a gedwir gan yr heddlu ac y mae’r heddlu o’r farn ei bod yn berthnasol
- **Gwiriad manwl gyda gwybodaeth o’r rhestr waharddedig** – i bobl sy’n gweithio mewn gweithgareddau rheoleiddiedig gyda phlant. Mae hyn yn ychwanegu gwiriadau rhestr waharddedig plant y GDG at wiriad manwl.

Yn ystod 2013, lansiodd y Llywodraeth Wasanaeth Diweddarau newydd. Fe wnaeth hyn alluogi unigolion i gofrestru unwaith ar gyfer gwiriad gan y GDG, a fydd wedyn yn cael ei ddiweddarau’n awtomatig a bydd ar gael i sefydliadau ei wirio.

Pan fydd y gwasanaeth hwn ar waith, bydd cyflogwyr yn gallu gwirio i sicrhau bod y wybodaeth ar wiriadau blaenorol y GDG yn gyfredol o hyd. Fodd bynnag, os bydd cyflogwr yn dymuno hynny, gall gynnal gwiriad newydd, cyn belled ag y bo’r diffiniad ar gyfer gweithgarwch rheoleiddiedig yn berthnasol i’r swydd.

Yn flaenorol, bu cryn gamddealltwriaeth ynghylch pryd a pha mor aml y dylid cynnal gwiriadau. Mae’r canlynol yn amlinellu’r sefyllfa bresennol o safbwynt pryd y mae angen i wiriadau fod ar waith cyn y gall gweithiwr ddechrau gwaith:

- Roedd argymhelliad cryf bod pob gweithiwr sydd â chysylltiad rheolaidd â phlant yn cael gwiriadau’r SCT os oeddent wedi’u cyflogi ar ôl Mawrth 2002. Fodd bynnag, yr unig ofyniad ar gyfer y rhai a benodwyd cyn y dyddiad hwnnw oedd eu bod wedi cael gwiriad yn ôl Rhestr 99.
- Daeth gwiriadau’r SCT yn orfodol ar gyfer gweithlu cyfan ysgolion a gynhelir o 12 Mai 2006 ymlaen (Medi 2003 ar gyfer ysgolion annibynnol). Mae’n rhaid bod

datgeliad manwl yr SCT gan weithwyr a ddechreuodd yn eu swydd ar ôl y dyddiad hwn.

- **Nid oes angen unrhyw wiriadau pellach** ar gyfer unrhyw aelod staff oni bai bod yr unigolyn hwnnw'n cael saib o fwy na thri mis mewn gwasanaeth neu os yw wedi newid ei rôl i ymgymryd â gweithgarwch rheoleiddiedig. Nid oes gofyniad statudol i wiriadau gael eu diweddarau fel mater o drefn ar gyfer pob aelod staff, er bod hyn yn bolisi gan rai cyflogwyr. Yn ogystal, nid oes gofyniad statudol i staff a gyflogwyd cyn Mawrth 2002 gael gwiriadau'r SCT neu'r GDG, ar yr amod bod eu gwasanaeth wedi bod yn wasanaeth parhaus. Fodd bynnag, cyn 2002, roedd gofyniad i bob aelod staff a oedd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc gael gwiriad yn ôl Rhestr 99, a dylid gwirio tystiolaeth o hyn.

O dan Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015, mae'n ofyniad statudol i bob unigolyn sy'n darparu addysg mewn neu ar ran sefydliad addysg bellach yng Nghymru (yn amodol ar rai eithriadau) gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Mae'r GDG yn rhoi diweddariadau rheolaidd i Gyngor y Gweithlu Addysg ar unigolion sydd wedi'u gwahardd. Sylwer nad yw rhai troseddau yn atal unigolyn rhag cofrestru fel athro mewn sefydliad addysg bellach, er y byddai troseddau yn ymwneud ag amddiffyn plant yn eu hatal. Holwch [Gyngor y Gweithlu Addysg](#) am fanylion.

Staff sy'n ymweld

Os bydd staff fel seicolegwyr addysg, athrawon cyflenwi, athrawon dan hyfforddiant, nyrsys, hyfforddwyr chwaraeon ac arolygwyr yn gweithio gyda phlant darparwr, dylai gwiriadau'r SCT neu'r GDG neu wiriadau yn erbyn y rhestr waharddedig ar gyfer y staff hyn gael eu cynnal gan eu cyflogwr, er enghraifft yr asiantaeth gyflenwi, y brifysgol neu'r awdurdod lleol.

Mae'n ddigonol i ddarparwyr ofyn am gadarnhad ysgrifenedig bod yr holl wiriadau priodol wedi cael eu cynnal ar gyfer y bobl hyn (wrth eu penodi gan amlaf) a chan bwy (yr adran adnoddau dynol berthnasol, gan amlaf). Rhaid i ddarparwyr gofnodi ar gofnod canolog unigol fod y gwiriadau hyn wedi'u cyflawni. Yna, dylai darparwyr gadarnhau pwy yw'r ymwelwyr hyn cyn iddynt weithio gyda phlant yn yr ysgol. Fel arfer, bydd gwiriadau manylion adnabod yn cynnwys cadarnhau pwy yw'r unigolyn gan ddefnyddio tystiolaeth ffotograffig, fel pasbortau neu drwyddedau gyrru.

Gall staff rhan-amser sy'n gweithio gyda phlant ddefnyddio'r un gwiriad gan yr SCT neu'r GDG ar gyfer dwy swydd neu fwy, ar yr amod bod y swyddi hyn ar lefel debyg a bod y darparwr wedi bodloni ei hun am gywirdeb a phriodoldeb y gwiriadau.

Llywodraethwyr neu Gyfarwyddwyr

Mae'r sefyllfa o ran llywodraethwyr wedi newid o dan **Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012**. Gan nad yw Llywodraethwyr neu Gyfarwyddwyr yn ymgymryd â gweithgarwch rheoleiddiedig mwyach, nid yw'n ofynnol iddynt gael gwiriadau fetio a gwahardd. Fodd bynnag, os bydd Llywodraethwyr neu Gyfarwyddwyr yn ymgymryd â rhyw fath o gysylltiad rheolaidd â phlant, maent yn destun asesiadau risg a fetio a gwahardd posibl, oni bai eu bod yn cael eu goruchwyllo'n ddigonol. Fel y'i diffinnir gan y Ddeddf, ystyr 'rheolaidd' yw gweithgarwch a wna'r un unigolyn yn fynych (unwaith yr wythnos neu'n amlach), neu ar 3 diwrnod neu fwy mewn cyfnod o 30 diwrnod (neu dros nos mewn rhai achosion).

Symud rhwng darparwyr

Er Medi 2006, mae asiantaethau cyflenwi wedi gallu trosglwyddo gwiriadau'r SCT neu'r GDG rhwng asiantaethau cyflenwi eraill i ysgolion a rhwng darparwyr

- Os yw gweithiwr wedi cael gwiriad gan yr SCT neu'r GDG, **nid oes gofyniad statudol** i gynnal gwiriad arall gan yr SCT neu'r GDG cyn ymgymryd â swydd mewn darparwr gwahanol, hyd yn oed os bydd mewn awdurdod lleol gwahanol, ar yr amod bod gwasanaeth parhaus gan yr unigolyn a bod y gwiriad ar y lefel gywir ar gyfer y swydd newydd.
- Mae'r un yn berthnasol i rywun sydd heb wiriad gan yr SCT neu'r GDG gan ei fod wedi bod mewn swydd cyn 2002; hynny yw, nid oes gofyniad statudol i gynnal gwiriadau pellach.
- Cyfrifoldeb y corff derbyn yw cynnal asesiad risg er mwyn asesu a yw'r gwiriad ar y lefel gywir ar gyfer y rôl bresennol, a yw'r gwiriad yn gywir ac a ydynt yn ymddiried bod y corff blaenorol wedi cynnal y gwiriad yn effeithlon.
- Dylai darparwr hyfforddiant sy'n ymdrin â phlant ofyn am dystiolaeth gan y darparwr blaenorol fod y gwiriad wedi'i gynnal. Mae rhai darparwyr yn amharod i dderbyn staff sy'n trosglwyddo heb ofyn am dystysgrif datgelu newydd gan yr SCT neu'r GDG oherwydd tybiant y byddai Estyn yn feirniadol o drefniadau o'r fath. Dylai arolygwyr osgoi rhoi unrhyw argraff mai arfer dda ym marn Estyn fyddai gofyn am dystysgrifau datgelu newydd gan yr SCT neu'r GDG fel mater o drefn pryd bynnag y caiff aelod staff ei recriwtio'n uniongyrchol o ddarparwr arall sy'n ymdrin â phlant, heb saib mewn gwasanaeth. Dylid annog darparwyr i asesu risg pob achos yn unigol a bod yn barod i arddangos sail eu penderfyniadau.
- Dylai barn 'anfoddhaol' gael ei rhoi i ddarparwyr sy'n methu sicrhau tystiolaeth bod staff â thâl a gwirfoddolwyr nad ydynt yn cael eu goruchwyllo wedi cael gwiriadau priodol gan y GDG cyn bod yr aelod staff yn dechrau addysgu wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, ni fyddai barn 'anfoddhaol' yn cael ei rhoi'n awtomatig i ddarparwr a oedd wedi dechrau'r broses wirio ond heb dderbyn cadarnhad ynghylch addasrwydd, os yw'r darparwr wedi cynnal asesiad risg addas ac wedi rhoi trefniadau goruchwyliaeth briodol ar waith ar gyfer yr aelod staff.
- Gwirfoddolwyr sy'n cael eu goruchwyllo yw'r unig rai nad oes angen gwiriadau gan y GDG arnynt gyda gwiriadau'r rhestr waharddedig (Gweler Atodiad 2).

Mae'r rheoliadau uchod yn berthnasol i ddarparwr addysg neu hyfforddiant sy'n ymdrin â phlant. Mae lleoliadau gofal cymdeithasol a lleoliadau preswyl yn rhwym wrth y safonau gofynnol cenedlaethol sydd â gofynion mwy llym o ran gwiriadau diogelu. Mewn lleoliadau o'r fath, gall staff ddechrau yn eu swyddi cyn bod cliriad gan y GDG wedi'i dderbyn, ond rhaid bod y cais wedi'i wneud am y cliriad, a rhaid i'r aelod o staff sy'n aros am y cliriad gael ei (g)oruchwyllo pan fydd mewn cysylltiad â phobl ifanc.

Athrawon dan hyfforddiant

Yn achos hyfforddeion ar gyrsiau addysg gychwynnol i athrawon, cyfrifoldeb y darparwr addysg gychwynnol i athrawon, nid cyfrifoldeb y coleg neu'r darparwr hyfforddiant sy'n ymdrin â phlant, yw sicrhau bod gwiriadau recriwtio priodol yn cael eu gwneud. Os bydd oedi wrth dderbyn datgeliadau gan y GDG, mae arweiniad Llywodraeth Cymru yn rhoi disgrisiwn i arweinydd y coleg addysg bellach neu'r darparwr hyfforddiant alluogi hyfforddeion i ddechrau gweithio yn amodol ar wiriad

boddhaol o restr waharddedig plant y GDG a chwblhau gweithdrefnau recriwtio arferol eraill. Dylai'r darparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon roi gwybod i arweinwyr y coleg addysg bellach neu'r darparwr hyfforddiant am hynt y ceisiadau am ddatgeliadau, gan y bydd angen i'r arweinwyr hyn gynnal goruchwyliaeth agosach o hyfforddeion nad ydynt wedi cael cliriad manwl eto. Rhaid i arweinwyr fod yn fodlon bod gwiriadau wedi cael eu gwneud mewn gwirionedd.

Mae'r sefyllfa'n wahanol i hyfforddeion ar lwybr hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth. Cânt eu cyflogi gan y darparwr, a dylai'r darparwr felly sicrhau cliriad yn yr un ffordd ag aelodau eraill o staff a gyflogir yn uniongyrchol os ydynt yn gweithio gyda phlant.

Siaradwyr gwadd

Dylai siaradwyr gwadd nad oes ganddynt wiriad manwl a gwiriad y rhestr waharddedig gael eu goruchwyllo'n ddigonol gan y darparwr.

Dylai asesiadau risg priodol fod ar waith gan y darparwr ar gyfer siaradwyr gwadd er mwyn lleihau'r posibilrwydd o radicleiddio neu hyrwyddo eithafiaeth.

Mae enghraifft o bolisi asesu risg ar gyfer siaradwyr allanol ar gael yma <http://www.preventforfeandtraining.org.uk/sites/default/files/20120814-%20Waltham%20Forest%20External%20Speaker%20Protocol%20FINAL%20%281%29.pdf>

Atodiad 2: Gweithgarwch rheoleiddiedig fel y mae wedi'i ddiffinio gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012

Mae'r diffiniad cyfreithiol, llawn o weithgarwch rheoleiddiedig wedi'i amlinellu yn Atodlen 4 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, fel y'i diwygiwyd (gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 yn benodol).

Mae Gweithgarwch Rheoleiddiedig yn eithrio trefniadau teuluol, a threfniadau personol, anfasnachol o hyd.

Mae'r diffiniad newydd o weithgarwch rheoleiddiedig yn gysylltiedig â phlant yn cynnwys:

- (i) **Gweithgareddau heb eu goruchwyllo:** addysgu, hyfforddi, rhoi cyfarwyddyd, gofalu am blant neu goruchwyllo plant, neu rhoi cyngor/arweiniad ar les, neu gyrru cerbyd ar gyfer plant yn unig
- (ii) **Gweithio i ystod gyfyngedig o sefydliadau** ('lleoedd penodol'), gyda chyfle ar gyfer cyswllt: er enghraifft ysgolion, cartrefi plant, safleoedd gofal plant. **Nid gwaith** gan wirfoddolwyr sy'n cael eu goruchwyllo

Mae gwaith o dan (i) neu (ii) yn weithgarwch rheoleiddiedig os caiff ei wneud yn rheolaidd yn unig. Ystyr rheolaidd yw gweithgarwch a wna'r un unigolyn yn fynych (unwaith yr wythnos neu'n amlach), neu ar 3 diwrnod neu fwy mewn cyfnod o 30 diwrnod (neu dros nos mewn rhai achosion).

Mae'r llywodraeth wedi rhoi arweiniad statudol am oruchwyllo gweithgarwch, a fyddai'n weithgarwch rheoleiddiedig pe na fyddai'n cael ei oruchwyllo.

- (iii) Gofal personol perthnasol, er enghraifft ymolchi neu wisgo; neu gofal iechyd gan weithiwr proffesiynol neu dan oruchwyliaeth gweithiwr proffesiynol
- (iv) Gwarchod plant cofrestredig a gofalwyr maeth.

Beth nad yw'n weithgarwch rheoleiddiedig mwyach wrth weithio gyda phlant?

- Gweithgarwch dan oruchwyliaeth ar lefel resymol
- Gofal iechyd nad yw'n cael ei roi gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol (na'i gyfeirio na'i oruchwyllo ganddo).
- Cyngor cyfreithiol
- 'Triniaeth/therapi' (yn lle 'gofal iechyd')
- Gwasanaethau achlysurol neu dros dro, (nid addysgu, ac ati) e.e. cynnal a chadw mewn ysgol
- Gwirfoddolwyr sy'n cael eu goruchwyllo ar lefel resymol.

Atodiad 3: Delio â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill (Cylchlythyr 009/2014 Llywodraeth Cymru)

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140410-safeguarding-children-in-education-cy.pdf>

Mae hwn yn ganllaw statudol ar gyfer ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach, ac yn ganllaw anstatudol ar gyfer ysgolion annibynnol.

Dylai fod gweithdrefnau gan ysgolion a cholegau addysg bellach ar gyfer delio â honiadau, a dylai pob un o'r staff a'r gwirfoddolwyr ddeall beth i'w wneud os byddant yn cael honiad neu os bydd ganddynt bryderon ynghylch aelod arall o staff.

Dylai'r gweithdrefnau ei gwneud yn glir y **dylid rhoi gwybod am bob honiad ar unwaith**, fel arfer i'r pennaeth, y prifathro, neu'r perchennog, os yw'n ysgol annibynnol.

Dylai'r gweithdrefnau hefyd nodi'r unigolyn, fel arfer cadeirydd y llywodraethwyr, y dylid gwneud cyfeiriadau atynt yn eu habsenoldeb; neu mewn achosion lle mai'r pennaeth neu'r prifathro ei hun yw testun yr honiad neu'r pryder. Ar gyfer UC Dau, gallai'r unigolyn hwn fod yn swyddog awdurdod lleol yn hytrach na chadeirydd y pwyllgor rheoli.

Dylai gweithdrefnau hefyd gynnwys manylion cyswllt ar gyfer swyddog yr awdurdod lleol sydd â'r cyfrifoldeb am ddarparu cyngor a monitro achosion o gam-drin proffesiynol. Dylid rhoi gwybod i Swyddog yr Awdurdod Lleol am yr **holl** honiadau sy'n dod i sylw ysgol ac y mae'n ymddangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir isod.

Honnir bod aelod o staff:

- wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi gwneud niweidio plentyn, neu a allai fod wedi niweidio plentyn;
- o bosibl wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn neu yn gysylltiedig â phlentyn; neu
- wedi ymddwyn tuag at blant neu blentyn mewn ffordd sy'n awgrymu y byddai'n peri risg niwed pe byddai'n gweithio'n agos neu'n rheolaidd gyda phlant.

Mae'r gweithdrefnau uchod yn ymwneud ag aelodau o staff sy'n gweithio mewn unrhyw ddarparwr ar hyn o bryd, ni waeth a yw'r cam-drin honedig wedi digwydd yn y darparwr neu beidio. Dylai honiadau yn erbyn athro nad yw'n addysgu mwyach gael eu cyfeirio at yr heddlu.

Atodiad 4: Gweithdrefnau ar gyfer adrodd ar achosion o gamymddwyn ac anghymwystra yn y gweithlu addysg yng Nghymru. Cylchlythyr 168/2015 Llywodraeth Cymru

<http://dera.ioe.ac.uk/23182/1/150608-reporting-misconduct-en.pdf>

Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu'r trefniadau adrodd ar gyfer achosion o gamymddwyn proffesiynol ac anghymwystra proffesiynol yn y gwasanaeth addysg. Mae'n berthnasol i ddarparwyr addysg yn y sector a gynhelir a'r sector annibynnol, fel ei gilydd.

Yn gryno:

- Os caiff aelod o staff neu wirfoddolwr ei ddiswyddo neu'i fod yn ymddiswyddo cyn cael ei ddiswyddo am gamymddwyn sy'n ymwneud â niwed, neu risg o niwed, i blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, rhaid i'r cyflogwr gyfeirio'r mater at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Os yw'r aelod o staff wedi'i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, rhaid i'r cyflogwr gyfeirio'r achos at Gyngor y Gweithlu Addysg hefyd.
- Os caiff aelod o staff neu wirfoddolwr sydd wedi ei gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ei ddiswyddo neu'i fod yn ymddiswyddo cyn cael ei ddiswyddo am gamymddwyn nad yw'n ymwneud â'r niwed, neu risg o niwed, i blentyn neu oedolion sy'n agored i niwed, rhaid i'r cyflogwr gyfeirio'r achos at Gyngor y Gweithlu Addysg.
- Os caiff aelod o staff neu wirfoddolwr nad yw wedi ei gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (e.e. gofalwr) ei ddiswyddo am gamymddwyn nad yw'n ymwneud â niwed i blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, dylai'r cyflogwr ddelio â'r achos o dan ei weithdrefnau disgyblu ei hun.

Atodiad 5: Diogelwch ar-lein

Cwestiynau posibl i arweinwyr

- 1 Sut ydych chi'n sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant priodol ar ddiogelwch ar-lein sy'n berthnasol ac yn gyfredol?
- 2 Pa gamau sydd gan y darparwr ar waith i gynorthwyo dysgwyr a staff sy'n wynebu problemau diogelwch ar-lein?
- 3 Sut mae'r darparwr yn addysgu a chynorthwyo cymuned gyfan y darparwr gyda diogelwch ar-lein?
- 4 A oes gan y darparwr bolisiau e-ddiogelwch a pholisiau ar ddefnydd derbyniol ar waith? Sut mae'r darparwr yn gwybod eu bod yn glir a bod pawb yn eu deall a'u dilyn?
- 5 Disgrifiwch y modd y mae eich darparwr yn addysgu dysgwyr i feithrin gwybodaeth, medrau a gallu o ran diogelwch ar-lein. Sut ydych chi'n asesu ei effeithiolrwydd?

Cwestiynau posibl i ddysgwyr

- 1 Os oeddech yn teimlo'n anghyfforddus ynghylch unrhyw beth a welsoch, neu os gofynnodd unrhyw un i chi am eich manylion personol fel eich cyfeiriad ar y rhyngwrwd, a fydddech chi'n gwybod ble i fynd am gymorth?
- 2 Os anfonodd unrhyw un negeseuon cas atoch ar y rhyngwrwd neu ar eich ffôn symudol, a fydddech chi'n gwybod wrth bwy i ddweud?
- 3 A allwch chi ddweud wrthyf am un o'r rheolau sydd gan eich darparwr ar gyfer defnyddio'r rhyngwrwd?
- 4 A allwch chi ddisgrifio risgiau rhoi cynnwys amhriodol ar y rhyngwrwd?

Cwestiynau posibl i staff

- 1 Ydych chi wedi cael unrhyw hyfforddiant sy'n dangos y risgiau i'ch diogelwch ar-lein chi a'ch dysgwyr?
- 2 A oes polisiau ar waith sy'n dangos arfer dda a diogel yn glir wrth ddefnyddio'r rhyngwrwd, ar gyfer staff a dysgwyr? A ydych chi wedi eu darllen? A ydych chi wedi'u trafod mewn cyfarfod staff neu ddigwyddiad hyfforddi?
- 3 A oes cosbau ar waith i orfodi'r polisiau uchod?
- 4 A yw pob un o'r staff yn deall beth yw ystyr y term seiberfwlio a'r effaith y gall ei chael arnyn nhw eu hunain a dysgwyr?
- 5 A oes dulliau adrodd clir gyda chyfres o gamau ar waith ar gyfer staff neu ddysgwyr sy'n teimlo'u bod yn cael eu bwlio ar-lein?

Atodiad 6: Atal radicaleiddio ac eithafiaeth

O 1 Gorffennaf 2015, mae'n rhaid i ysgolion, UC Dau a sefydliadau AB 'roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth'. Amlinellir hyn yn Adran 26 [Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015](#) a'r [Canllaw dyletswydd atal](#) cysylltiedig o dan adran 29 y Ddeddf.

Bydd cyd-destun y sefydliad AB yn effeithio ar y graddau y bydd angen i arolygwyr ystyried gwaith y sefydliad AB yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bob ysgol, UCD a sefydliad AB gydymffurfio â'r ddyletswydd a dylai arolygwyr fodloni'u hunain fod y darparwr yn ymwybodol o'r ddyletswydd ac yn gweithredu'n briodol.

Cwestiynau posibl i'w hystyried:

- A yw polisi amddiffyn y darparwr yn ystyried y ddyletswydd i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag radicaleiddio ac eithafiaeth?
- A yw'r darparwr wedi asesu'r risg bosibl o radicaleiddio ac eithafiaeth yn ei ardal leol? A yw'r asesiad risg ar gael, ac a yw'n cael ei weithredu?
- A oes protocolau clir ar gyfer sicrhau bod unrhyw siaradwyr gwadd yn cael eu goruchwylio'n briodol?
- A oes gan y darparwr bolisiau clir, sydd ar gael yn eang, ynghylch defnyddio ystafelloedd gweddio a chyfleusterau ffydd eraill? Dylai'r bolisiau hyn amlinellu'r strwythurau sydd ar waith ar gyfer rheoli'r cyfleusterau gweddio a ffydd (er enghraifft pwyllgor goruchwylio) a dulliau ar gyfer ymdrin ag unrhyw broblemau
- Pa mor dda y mae'r darparwr yn cydweithredu gyda chydlynwyr Atal yn lleol, yr heddlu ac awdurdodau lleol lle bo'n berthnasol?
- A yw uwch reolwyr a staff perthnasol eraill (e.e. penaethiaid meysydd pwnc perthnasol ac arweinwyr gofal bugeiliol) yn deall beth yw ystyr radicaleiddio a pham y gall pobl fod yn agored i'w tynnu i mewn i derfysgaeth o ganlyniad iddo?
- A yw aelodau perthnasol o staff yn ymwybodol o ba fesurau sydd ar gael i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth a sut i herio'r ideoleg eithafol a all fod yn gysylltiedig â hi?
- A yw'r darparwr wedi sicrhau bod hyfforddiant priodol wedi'i roi i staff? Dylai dull y darparwr o hyfforddi ystyried lefel y risg yn eu hardal leol. Byddai'n briodol pe bai o leiaf un unigolyn dynodedig ym mhob ysgol, UCD a sefydliad AB yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth *Atal* – mewn ambell achos, byddai'n briodol pe bai'r holl staff yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth *Atal*.
- A yw'r darparwr yn gwybod sut i gael cymorth ar gyfer disgyblion/myfyrwyr a all gael eu hecsbloetio gan ddylanwadau radicaleiddio?

Atodiad 7: Diogeledd ar y safle

Rydym yn disgwyl i'r darparwr:

- gynnal asesiad risg trylwyr o safle/safleoedd y darparwr
- gwneud trefniadau priodol i reoli'r risgiau hynny yn briodol
- dweud wrth eu cyflogeion am y risgiau a'r camau y dylid eu cymryd i'w rheoli
- sicrhau bod hyfforddiant digonol yn cael ei roi i gyflogeion ar faterion iechyd a diogelwch

Defnyddio cyfleusterau canolfan hamdden

Cyfrifoldeb y darparwr yw sicrhau bod dysgwyr yn ddiogel wrth ddefnyddio cyfleusterau canolfan hamdden. Rydym yn disgwyl i'r darparwr gynnal asesiad risg trylwyr o ddefnydd y darparwr o gyfleusterau o'r fath a gwneud trefniadau priodol i reoli'r risgiau hynny yn briodol.

Atodiad 8: Gwybodaeth am ddiogelu ac arolygiadau

Cyngor i Arolygwyr Cofnodol ac arolygwyr tîm ar bwysigrwydd ystyried unrhyw wybodaeth a ddelir gan Estyn ynglŷn â chwynion gan rieni yn erbyn darparwr, ac unrhyw faterion diogelu wrth reoli arolygiad (cyhoeddwyd Mai 2016)

Wrth baratoi ar gyfer arolygiad, bydd y CydAr yn rhoi gwybod i'r Arolygydd Cofnodol a oes unrhyw wybodaeth berthnasol am ddiogelu, neu gwynion am y darparwr a ddelir gan Estyn. Mae hyn er mwyn i'r Arolygydd Cofnodol allu defnyddio'r wybodaeth hon i lywio trywyddau ymholi. Mae'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol a gall rybuddio'r Arolygydd Cofnodol y gallai rhieni godi pryderon yn ystod y noson rieni, neu hyd yn oed ar ôl yr arolygiad. Pan fydd y CydAr wedi nodi bod gwybodaeth am ddiogelu, rhaid i'r Arolygydd Cofnodol gysylltu â Swyddog Diogelu Estyn i gael briff, a bydd y swyddog diogelu yn awgrymu trywydd ymholi addas.

Gall yr Arolygydd Cofnodol ddefnyddio ffurflen hunanarfarnu diogelu'r darparwr a'r holiaduron i rieni a dysgwyr hefyd i lywio eu trywyddau ymholi ar gyfer lles a diogelu. Pan fydd y dystiolaeth cyn-arolygiad mewn unrhyw sector yn nodi materion diogelu posibl neu reolaeth wael gan y darparwr, gofynnwch am arweiniad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol eich sector a'r Swyddog Diogelu. Pan fydd modd cyfeirio mater newydd o bosibl, rhaid cymhwyso polisi diogelu Estyn.

Yn ystod yr arolygiad, os bydd Estyn yn cael unrhyw wybodaeth berthnasol am fater diogelu, bydd swyddog diogelu Estyn yn rhoi gwybod i'r Arolygydd Cofnodol ac yn cytuno sut i ddelio â'r mater. Rhaid i'r Arolygydd Cofnodol sicrhau ei fod yn cofnodi unrhyw dystiolaeth yn gysylltiedig ag unrhyw drywyddau ymholi diogelu o gyfweiliadau, arsylwadau neu ddarllen ffeil yn eu FfF, oherwydd gellid bod angen hyn ar gyfer unrhyw ohebiaeth ddilynol sy'n codi ar ôl yr arolygiad. Os bydd yr Arolygydd Cofnodol neu aelod arall o'r tîm yn cofnodi unrhyw wybodaeth gyfrinachol, dylid trosglwyddo'r wybodaeth hon i Swyddog Diogelu Estyn i'w ffeilio'n ddiogel. Ni ddylid cofnodi manylion am y wybodaeth gyfrinachol hon yn y FfF, ond dylid gwneud nodyn bod y deunydd wedi cael ei drosglwyddo i Swyddog Diogelu Estyn ynghyd â'r rhif achos perthnasol.

Cofiwch

Gallai digwyddiad ddod i'r amlwg ar ôl arolygiad, a gellid gofyn i Estyn roi cyfrif am yr hyn yr oedd yn ei wybod ar y pryd a'r camau a gymerodd, neu na chymerodd. Yn achos anaf difrifol neu farwolaeth, gallai'r atebolrwydd hwn fod trwy Adolygiad Achos Difrifol. Bydd eich cofnod yn eich FfF, ac unrhyw wybodaeth gyfrinachol sy'n cael ei storio yn y ffeiliau diogelu yn berthnasol yma, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'r pethau pwysig.

Atodiad 9: Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170330-healthcare-needs-cy.pdf>

Mae'r ddogfen hon wedi'i chynllunio i gynorthwyo awdurdodau lleol, cyrff llywodraethol, lleoliadau addysg, gweithwyr addysg ac iechyd proffesiynol a sefydliadau eraill i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd a sicrhau cyn lleied o aflonyddwch ag y bo modd i'w haddysg. Mae'n cynnwys arweiniad statudol, a chyngor anstatudol fel ei gilydd.

Yn gryno:

- **Rhaid** i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol ystyried¹ yr arweiniad statudol hwn wrth gyflawni eu dyletswyddau o ran hyrwyddo lles plant sy'n ddysgwyr yn y lleoliad addysg, gan gynnwys bodloni eu hanghenion gofal iechyd. Mae'r arweiniad hefyd yn berthnasol i weithgareddau sy'n cael eu cynnal oddi ar y safle fel rhan o weithgareddau addysgol arferol.
- Dylai dysgwyr ag anghenion gofal iechyd gael eu cefnogi'n briodol fel eu bod yn elwa'n llawn ar addysg, gan gynnwys teithiau ac addysg gorfforol.
- Rhaid i gyrff llywodraethol sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.
- Dylai cyrff llywodraethol sicrhau bod staff lleoliadau addysg yn ymgynghori â'r gweithwyr proffesiynol perthnasol, y dysgwyr a'r rhieni i sicrhau bod anghenion y dysgwr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu deall yn briodol a'u cefnogi'n effeithiol.

Mae'r arweiniad yn darparu gwybodaeth am y canlynol:

- Y gweithdrefnau ar gyfer cadw cofnodion a rheoli anghenion gofal iechyd dysgwyr
- Creu amgylchedd dysgu hygyrch
- Storio, defnyddio a gweinyddu meddyginiaeth a dyfeisiau
- Hyfforddi staff
- Gweithdrefnau mewn argyfwng
- Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol
- Arfer annerbyniol

Rheoli'r Ddogfen	Dyddiad	Awdur	Diwygiwyd gan
Fersiwn 2	Awst 2015	Alun Connick	Anthony Mulcahy Steve Bell
Fersiwn 3	Medi 2017		Anthony Mulcahy i adlewyrchu newidiadau i drefniadau arolygu o Fedi 2017